

Cenn@d

IONAWR 4 2023

YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 97

Dymuna *Cenn@d* flwyddyn newydd dda i'w holl ddarllenwyr

Gweddi ar ddechrau blwyddyn newydd

Addasiad o eiriau 'Das alte Jahr vergangen ist'; Cantata gan Bach

Addolwn di, ein Harglwydd cu,
Wrth gefnu ar y flwyddyn fu;
Rhyfeddwn at dy gariad rhad
A'th faith amynedd, nefol Dad.

O Grist ein Harglwydd, Fab y Tad,
Dy Eglwys gwarchod ym mhob gwlad;
Rhag heriau a ddaw eto i'w rhan,
O nertha hi, nid yw ond gwan.

Na chymer d'Air cysurlon, byw,
O'n plith, gair gwaredigol yw;
Trig yn ein plith, a chadw ni
Rhag crwydro mhell o'th 'wyllys di.

Am i ni'th Ysbryd Glân dristáu
Rho nerth i fedru 'difarhau;
Na chadw cyfrif, Sanctaidd frawd,
O bob cam wnaethom drwy ein rhawd.

Â gwerthoedd glân, sanctaidd i Dduw,
Dymunwn farw, neu iti fyw;
Dy wasanaethu, nefol Ri,
A byw'n dragwyddol gyda thi.

Mewn cartref llon, â mawl di-lyth
Angylion nef, cawn foli byth;
Canmolwn di, ein ffydd cryfha,
Wrth fyw neu farw, Iesu da.

RWJ

Gellir canu'r geiriau ar dôn yr Hen
Ganfed a gwrando ar ddehongliad o'r
gwreiddiol ar <https://www.youtube.com/watch?v=aQx36-Fyyr4>



Llun: <https://unsplash.com/photos/4HBYkURqVc>

Dathlu'r Nadolig ar draws Cymru

Mewn cyfnod pan fydd lleisiau gwae yn darogan tranc ein henwadau, mae *Cenn@d* yn falch o fedru dweud y cynhaliwyd gwasanaethau Nadolig ar draws y wlad a rhannodd grwpiau bychain a chynulleidfaoedd mwy niferus hanes rhyfeddol dyfod Iesu Grist yn Waredwr i'r byd.

A gan fod un llun yn cyfleu mwy na'r hyn sy'n cael ei gyfleu mewn mil o eiriau, rydym yn falch o gynnwys cyfres o luniau sy'n tystio i'r llawenydd a rannwyd dros yr ŵyl.



Capel Pen-llwyn, Ceredigion



Capel y Morfa, Aberystwyth



Plant ac ieuencid ysgol Sul Rhydfendigaid,
Ponrhydfendigaid, yn eu gwasanaeth Nadolig

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cynnal ac aildanio'r fflam
Tudalen 3

Ysgogi ailsefydlu ysgolion Sul yn 2023
Tudalen 6

Mannau Cynnes
Tudalen 7

Dathlu'r Nadolig ar draws Cymru
(parhad o dudalen 1)



Gwasanaeth Nadolig Capel Bwlch-gwynt, Tregaron



Ysgol Sul Rhydfendigaid yn canu carolau ym Marchnad 'Doligy Bont ym Mhafiliwn Ponrhydfendigaid



Plant ysgol Sul y Tabernacl, Caerdydd, yn cyflwyno'u gwasanaeth Nadolig



Capel Madog, Ceredigion



Gwasanaeth Nadolig Capel Bethania, y Felinheli



Criw Agor y Llyfr cylch Bangor yn ymweld ag Ysgol Glancegin i gyflwyno stori'r Nadolig



Plant ysgol Sul Salem, Treganna, yng nghwmni Siôn Corn yn mwynhau eu parti Nadolig



Gwasanaeth Nadolig Capel Salem, Treganna, Caerdydd

Cynnal ac aildanio'r fflam

Cyfarchiad Blwyddyn Newydd gan Evan Morgan,
Llywydd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru hoffwn ddimuno Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, ddarllenwyr *Cenn@d*, gan weddio am flwyddyn gynhyrchiol a hapus i bawb.

Mae'r cyfnod yma'n amser i edrych yn ôl ac ymlaen, a'r dudalen yn lân megis.

Mae nifer o bethau yn 2022 wedi ein cyffwrdd ac wedi bod yn hwb i'r galon. Braff dros ben oedd gweld Canolfan Trefeca yn cael ei defnyddio mewn ffordd ymarferol i helpu ffoaduriaid o Wcráin.

Hyfryd oedd gweld yr holl ymdrechion i godi arian at apêl Hadau Gobaith, a braff iawn oedd gweld cymaint ohonoch wedi troi allan i gydgerdded ar y teithiau noddedig.

Mewn oes lle mae mwyfwy o alwadau ar ein hamser a'n harian, diolch i chi i gyd am bob ceiniog at yr apêl hynod bwysig yma. Daliwch ati am ran gynta'r flwyddyn hon nes bod cyfnod yr apêl ar ben!

Gyda'r holl dlodi yn ein cymdeithas a'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn mynd yn fwy a'r creisis costau byw sydd wedi ein taro, mae mor bwysig i ni fel eglwys ymateb.

Gwyddom am nifer o eglwysi sy'n cynnig man cynnes yn wythnosol; mae eglwysi'n casglu at fanciau bwyd a nifer o'n haelodau yn weithgar ac yn gwirfoddoli yn y banciau bwyd lleol.

Yn ôl ffigyrau'r cyfrifiad diweddaraf mae ein rhifau a'n dylanwad wedi cilio'n sylweddol. Ond serch hynny mae ein hangen o hyd o fewn ein cymunedau i garu ein cymydog ac i ddangos cariad lesu ar waith – os rhywbeth, yn fwy heddiw nag erioed.

Cefais brofiad hyfryd, un o nifer fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, o annerch yng ngwasanaeth Nadolig Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yn Rhydychen. Cyrhaeddais Rydychen adeg y cyfnos a chwilio am y coleg lle'r oedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal. Pasiais heibio i Balliol, Trinity, Exeter, ac yn amlwg roedd golwg fel un ar goll arnaf yn fy *'bib and tucker'* gorau fel Gweinidog! "You OK there, Padre? You look lost," gofynnodd llais caredig. "I'm looking for Jesus," medde fi, yn hollol ddiniwed. Fe wenodd a dweud mewn llais direidus, "Well, if you don't know, Father, what hope is there for the rest of us?" Ac fe bwyntiodd at adeilad y coleg!



Dydy pobl efallai ddim yn edrych am lesu yn benodol wrth ei enw, ond yn sicr maen nhw'n edrych am gymorth, cysur, pwrpas, caredigrwydd, gobaith am gariad a chyfiawnder ... pob dim sy'n dod yn sgil Iesu Grist.

Boed i ni gynnig y rhain i gyd y flwyddyn hon. Yn y tywyllwch, yn y niwl, yn yr oerfel, fe gynigiwn oleuni a gwres ei gariad ac adlewyrchwn ei oleuni i eraill. Fel y dywed Michelle Obama yn ei llyfr *The Light we Carry*, 'One light feeds another, one strong family lends strength to more, one engaged community can ignite those around it'. Ac fel y dywed Dic Jones yn ei gerdd 'Dilyn y Goleuni': 'Un gannwyll yn ugeiniau, ugeiniau'n gannoedd a'u pabwyrâu'n filoedd o gannoedd yn gwau i'w gilydd yn un golau.'

Dyma'r goleuni grymus y mae'n fraint i ni ei gario ... Dyma'r goleuni fydd yn ein tywys ni gydol y flwyddyn hon.

Apêl am heddwch yn Wcráin

Ar 21 Rhagfyr 2022, daeth nifer o aelodau Cymdeithas y Cymod ynghyd yn y Bala i anfon llythyrau at bedwar gwladweinydd yn annog heddwch, cadoediad a chymod yn y gwrthdaro rhwng Wcráin a Rwsia. Roedd y llythyrau wedi eu cyfeirio at yr Arlywydd Zelenkyy a'r Arlywydd Putin yn annog y ddau arweinydd i drafod telerau cadoediad a chytundeb heddwch teg cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn yr henoed, y diamddiffyn a'r holl ddinasyddion a'r milwyr sydd wedi cael eu dal ynghanol y rhyfel erchyll yma.

Anfonwyd llythyrau hefyd at y Prif Weinidog Rishi Sunak a'r Prif Weinidog Mark Drakeford yn annog y ddau ohonynt i wneud popeth a fedrant i beidio hybu'r rhyfel ond i sicrhau cytundeb heddwch.

Arwyddwyd y llythyrau gan y Parch. Philip de la Haye, gweinidog wedi ymddeol sy'n byw yn y Bala, a ddywedodd 'Mae'r llythyrau'n tarddu o ddyhead dwfn am heddwch a chymod rhwng y ddwy genedl hyn.'

Mae Cymdeithas y Cymod ynghyd â mudiadau heddwch eraill yng Nghymru wedi mynegi eu pryder fod pwerdai niwclear ar y rheng flaen yn y gwrthdaro ac yn fygythiad ychwanegol difrifol.

Ychwanegodd Awel Irene, cydlynnydd Cymdeithas y Cymod: 'Rhaid i'r Gorllewin gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd yn ymestyn, ac yn wir yn hybu'r rhyfel yma. Mae'n hen bryd i'r llywodraethau i gyd ddefro i'r ffaith fod y mwyafrif llethol o bobl eisiau heddwch a chyd-ddeall rhwng cenedloedd a'i gilydd.'

Mae [Cymdeithas y Cymod](#) yn rhan o fudiad heddwch rhyngwladol sy'n gwrthwynebu rhyfel a thrais. Mae'r aelodau'n credu mewn dulliau di-drais o ddatrys gwrthdaro a gweithio dros heddwch.



Gobaith troad y flwyddyn

Cyfarchiad Blwyddyn Newydd gan D. Densil Morgan,
Llywydd Undeb y Bedyddwyr

Un o deitlau mwyaf swynol cyfrol o farddoniaeth yw *Song at the Year's Turning* gan R. S. Thomas. Mae'n hen gyfrol erbyn hyn, sef yr ail gasgliad o gerddi'r bardd sy'n cynnwys gwaith a luniwyd rhwng 1942 a 1954 ac a gyhoeddwyd yn 1955, ymhell dros drigain mlynedd yn ôl. Cymerwyd y teitl o un o gerddi'r casgliad, ac mae'r gân 'Song at the Year's Turning' yn sôn am hiraeth, dadrithiad a chariad coll:


Now the dream decays.
The props crumble; the familiar ways
Are stale with tears trodden
underfoot.
The heart's flower withers at the root.
Bury it then, in history's sterile dust.

Erbyn hyn, i 'lwch diffrwyth hanes' y perthyn 2022, ac mae natur brudd y gerdd yn ddrych o'r flwyddyn a mwy a aeth heibio. Tybed a welwyd cyfnod mor llwm â hwn ers tro? Covid a'r pandemig, yr argyfwng hinsawdd, y rhyfel yn Wcráin, drama Brexit yn parhau a'r anhrefn yn y byd gwleidyddol, ffoaduriaid yn cyrraedd y wlad yn eu miloedd mewn cychod bach bregus, pris tanwydd yn codi i lefelau astronomig, chwyddiant a digartrefedd, ac yn nhrymder y gaeaf yr argyfwng costau byw yn dwysáu. Ac ar ben hynny, ystadegau'r cyfrifiad yn datgelu mai 40 y cant o drigolion yr ynysoedd hyn sy'n eu hystried eu hunain yn Gristnogion mwyach a chyfartaledd siaradwyr

Cymraeg wedi disgyn i lai na deunaw y cant. Y gair a fathwyd i ddisgrifio hyn oll yw 'permacrisis', yr argyfwng parhaol, ac ar droad y flwyddyn does dim syndod i hyn gymylu golygon llawer.

Fodd bynnag, mae dathliadau'r flwyddyn newydd yn rhoi cyfle i Gristnogion atgoffa'u hunain am hyder, gobaith ac am gysuron oesol ein ffydd, a hyn yng ngoleuni cyhoeddiad Iesu yn synagog Nasareth ynghylch 'blwyddyn ffafr yr Arglwydd'. Eto, nid cynnig gras tsiêp mae'r efengyl nac optimistiaeth arwynebol ond y gynhafiaeth sy'n sicrach na'n hamgylchiadau ac sy'n drech na phob anghrediniaeth. Fel yn llawer o waith R. S. Thomas, ofer chwilio am neges grefyddol bendant, ddiamwys, yn y gân hon, ac yn ôl yr arfer mae'n ein gorfodi i ymdrechu er mwyn dod o hyd i'r cysur. 'Is there a blessing?' mae'n gofyn yn ei bennill olaf, wrth sôn am ysblander heulwen y gaeaf yn dwyn ei olau er gwaethaf yr oerni. A hithau'n droad y flwyddyn, meddai, daw'r gwanwyn yn ei dro: 'The new grass shall purge you in its flame'.

Ar ddechrau 2023 nid gobaith tsiêp a addawyd i ni ond un costus, drud. Gwyddai'r proffwyd Jeremeia hyn yn burion, ac mae'n dda gen i fod yr alarnad sy'n gysylltiedig â'i enw wedi ei chynnwys fel rhan o'r datguddiad dwyfol: 'Yr wyf wedi f'amddifadu o heddwch', meddai, 'anghofiais beth yw daioni'; onid dyna



oedd nodwedd 2022? Ond nid fel 'na mae'n gorffen:

Cofia fy nhrallod a'm crwydro, y wermod a'r bustl ... Meddyliaf yn wastad am hyn, ac felly disgwyliaf yn eiddgar. Nid oes terfyn ar gariad yr ARGLWYDD, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb. Dywedais, 'Yr ARGLWYDD yw fy rhan, am hynny disgwyliaf wrtho'. Da yw'r ARGLWYDD i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio. Y mae'n dda disgwyl yn dawel am iachawdwriaeth yr ARGLWYDD. (Galarnad 3:17-26)

A dyna fy nymuniad innau i bob un ohonoch ar ddechrau'r flwyddyn hon.

Gair o gydymdeimlad

Bydd pob marwolaeth yn brofiad anodd i'r teulu a'r gymuned sydd o'u cwmpas. Pan fydd y farwolaeth honno yn berson ifanc yn byw dramor, bydd yr ing yn ddwysach fel canlyniad. Dyna fu hanes y Parchg Rosa Hunt, gweinidog newydd y Tabernacl, Caerdydd, cwta wythnos cyn y Nadolig, pan ddaeth y newyddion bod ei hail fab, Christopher, wedi marw allan yn yr Eidal. Cydymdeimlwn â Rosa a'i phriod, Francis, a'u tri mab arall, sef Joshua, Timothy a Daniel, yn eu galar. Yn ei neges i'r eglwys dros y Nadolig dywedodd Rosa nad oedd hapusrwydd ar eu haelwyd dros y Nadolig, ond roedd heddwch a llawenydd cariad Duw yn gonglfaen i'w bywydau.

* * *

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd y Parch. Raymond Jones yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, ar 29 Rhagfyr 2022. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â'i deulu. Byddwn yn cynnwys teyrnged iddo yn fuan. A ninnau'n cofio dyfodiad Iesu Grist i fod yn Emanuel, yn Dduw gyda ni, cyflwynwn ei deulu i ofal yr Arglwydd tirion hwn.

Yn yr un modd estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r Parch. Brian Reardon, Llanfair-ym-Muallt. Roedd yn wyneb cyfarwydd i'r gymuned amaethyddol ar draws Cymru ac i eraill oedd yn ymweld â'r Sioe Amaethyddol yn Llanellwedd gan iddo wasanaethu yno fel caplan ar y maes dros nifer o flynyddoedd. Cynhelir ei wasanaeth angladd ar 7 Ionawr 2023 yng Nghapel Alpha, Llanfair-ym-Muallt am 12.00 o'r gloch.

Edrychwn ymlaen i'r flwyddyn newydd.

Beth sydd o'n blaenau?

12 mis,

52 o wythnosau,

365 o ddyddiau, 8760 o oriau,

525,600 o funudau

a 31,536,000 o eiliadau.

Rhodd Duw i ni.

www.cristnogion.cymru/casad



Un Funud Fach ...

'Mae tymor i bob peth, ac amser i bob gorchwyl dan y nef' (Llyfr y Pregethwr 3:1)

Tic-toc, mae'r cloc wedi taro deuddeg.

Blwyddyn newydd dda i chi i gyd! Mae 2023 wedi cyrraedd. Anodd credu, efallai. Mae amser yn hedfan.

Tybed beth sydd yn ein disgwyl dros y deuddeg mis nesaf? Ar gyfer ein heglwysi. Ar gyfer ein cenedl. Ar gyfer ein byd. Does neb yn gwybod, ond Duw. Y cyfan y gallwn ei wneud yw gobeithio a gweddïo bod 2023 yn mynd i fod yn flwyddyn dda, bod 2023 yn mynd i fod yn flwyddyn llawn iechyd, llawenydd a heddwch.

Ie, tybed beth sydd i ddod? Dyna'r peth am flwyddyn newydd sbon. Mae'n dudalen wag - llechen lân. Mae'r dyfodol allan yna o'n blaenau, yn anhysbys ac yn barod i agor i fyny.

Fel gweinidog gweddol newydd i'r swydd, mae trefnu amser wedi bod yn heriol, a'r ymdeimlad bod angen llenwi pob munud o bob dydd i gyfiawnhau fy hunan.

Cyn bod yn weinidog, roeddwn yn gweithio mewn ysgol gynradd fel cynorthwywraig. Ac er bod ambell beth yn codi yn yr ysgol, ar y cyfan roedd strwythur gweddol benodol i'r diwrnod, ac i'r flwyddyn. Ac roedd sicrwydd yn hynny; roedd y sicrwydd yn fan diogel. O achos y strwythur yna, roedd e'n rhwydd ymddiried yn Nuw achos fy mod



yn gwybod beth oedd yn fy nisgwyl wrth gamu i mewn drwy ddrws yr ysgol bob dydd.

Pan ddaeth galwad Duw ar fy nghalon fod angen i fi fentro ar rywbeth gwahanol, fe aeth y sicrwydd hwnnw allan drwy'r ffenest. Dechreuodd cyfnod hollol wahanol yn fy mywyd. A'r cwestiwn ddaeth, nid yn unig wrtha i ond oddi wrth eraill hefyd, 'A wyt ti'n gwneud y peth iawn?'

Fe wnes i droi at Dduw am yr ateb, i weld a oeddwn wedi dirnad ei alwad yn gywir. Dyma'r ateb a gefais wrth eistedd, credwch neu beidio, mewn angladd a gwrando ar ddarlenniad adnabyddus iawn. Geiriau enwog allan o Lyfr y Pregethwr: bod **amser i bob gorchwyl dan y nef**.

Dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf mae ambell beth wedi digwydd sydd wedi profi'r geiriau yma'n gywir. Rydw i wedi bod yn y man a'r lle cywir pan oedd angen. Hefyd, mae adegau lle cefais fy rhwystro, a methu cyrraedd fy nghyrchfan ac o ganlyniad roedd y sefyllfa gymaint â hynny'n well. A does dim amheuaeth gyda fi nad oedd llaw Duw yn yr amseroedd hynny.

Dros y misoedd nesaf, wrth i'r flwyddyn newydd agor o'n blaenau, ceisiwn gofio geiriau'r Brenin Solomon: bod yna amser i dyfu, amser i chwerthin, amser i wylo ac amser i chwalu.

Does gen i ddim amheuaeth nad yw'r geiriau yma, y rhestr hir sydd ym mhennod 3 o'r llyfr, yn gofyn i ni fentro, sylweddoli bod yna siawns, wrth i ni geisio pethau newydd, efallai byddwn ni'n methu. Bod pethau negyddol a phositif yn mynd law yn llaw.

Felly eleni, dros y flwyddyn newydd hon, cofiwn eiriau bardd enwog ardal y Preselau, Waldo Williams:

Un funud fach cyn elo'r haul o'r wybren.

Achos drwy ymddiried yn Nuw mae pob munud yn cyfri. Mae'n rhaid mentro a bod yn barod i fethu, achos wrth fethu byddwn ni wedyn yn gwybod beth yw llwyddiant.

Sian Elin Thomas

Diolch i Sian Elin Thomas am ei chyfraniad cyntaf i golofn ddeufisod fydd yn ymddangos ar dudalennau Cenn@d.



Ysgogi ailsefydlu ysgolion Sul yn 2023

'Yn gryfach gyda'n gilydd' (Together Stronger), yn wannach wedi ein gwahanu – gwendidau ein gwahanu

Testun tristwch a phryder yw deall na chynhelir ysgolion Sul bellach mewn nifer fawr o gapeli ac eglwysi post-pandemig yng Nghymru.

Deallwn fod tebygolrwydd y bydd nifer sylweddol o achosion o Fôn i Fynwy yn dirwyn i ben yn y dyfodol agos. Mae'r argyfwng pris ynni a'r gost sylweddol o wresogi capeli neu hyd yn oed festrioedd llai yn ein gorfodi i wynebu dewis anodd a phoenus dros y gaef a'r gwanwyn, yn arbennig yn 2023.

Mae'n ofid sylweddoli y bydd nifer o achosion yn marw yn ddi-blant. Ni fydd cenhedlaeth ar gael i etifeddu ffydd y neiniau a'r teidiau a fynegodd y ffydd honno'n weladwy wrth fuddsoddi ac adeiladu tai cwrrd cadarn eu cerrig ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Mae nifer o achosion eisioes wedi dathlu eu parhad am dros gan mlynedd a rhai am lawer mwy o flynyddoedd fel man ymgynnull i gydnabod trugaredd y Tragwyddol.

Ond, 'Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?' neu, a bod yn fwy realistig, 'Pwy fydd yma mewn dwy flynedd neu ddeg mlynedd?'

Mae'n argyfwng

Does dim angen i ni fod yn broffwydi praff i sylweddoli a chynabod pa mor enbydus yw cyflwr a dyfodol nifer fawr o'n capel ni o bob enwad yng Nghymru.

Fe ges i fy ysgwyd yn ymenyddol y dydd o'r blaen pan honnodd Cymro Cymraeg ei iaith fod enwadaeth wedi bod yn **ddydanwad negyddol a niweidiol** mewn tref a phentref yn y winllan hon wrth wahanu cymdogaethau clôs a chynnes i wahanol adeiladau yn arbennig ar y Sul, fel mewn cyfarfodydd yn yr wythnos.

Roedd plant oedd yn mynychu'r ysgol leol gyda'i gilydd yn ddyddiol yn cael eu tywys i le addoliad ac ysgol Sul mewn corllanau gwahanol ar ddydd cyntaf yr wythnos.

Rhaid i fi gyfaddef nad ydw i erioed wedi edrych mor wrthrychol ac oeraidd ar y sefyllfa ag y gwnaeth y brawd hwn. Dwi'n cael fy nghymell i gytuno'n rhannol â'r dadansoddiad er fy mod yn deall yn iawn pam y crëwyd achosion enwadol mewn pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru.

Oes modd adfer ysgolion Sul yn ein cymdogaethau?

Mae lle i ni ymfalchio bod cymaint o adnoddau amrywiol ac ardderchog eisoes

ar gael drwy ymdrechion Cyngor Ysgolion Sul Cymru a'r Cyfarwyddwr diwyd a diflino, y Parch Aled Davies, Chwilog, a'i gydweithwyr campus.

Onid yw'n briodol a hyd yn oed yn hollol angenrheidiol ein bod fel oedolion yn mynegi ein parodrwydd i gydweithio yn lleol (efallai'n rhanbarthol, os yw'r adnoddau o ran arweinwyr yn brin), yn enwadol a chapelyddol er mwyn parhau gweithgarwch Cristnogol neu, mewn nifer o sefyllfaoedd, adfer tystiolaeth ysgolion Sul ar gyfer plant Cymru yn 2023 ac wedi hynny.

Amseriad a lleoliad

Er ein bod yn draddodiadol yn defnyddio'r term ysgol Sul, gwyddom fod nifer o ardaloedd yn cynnal gweithgarwch llwyddiannus ar ddiwrnod ar wahân i'r Sul. Mae hyblygrwydd o ran y diwrnod a'r amser yn dibynnu ar y sefyllfa leol ac yn fater i'w drafod.

I osgoi unrhyw ragfarn enwadol neu ymlyniad capelyddol cul a sentimental, bydd gofyn i'r tîm lleol ystyried ai syniad da yw llogi stafell yn yr ysgol leol neu yn neuadd neu lyfrgell y pentref.

Dod at ein gilydd yn fuan i gynllunio sut mae symud ymlaen

Un opsiwn yw cynnal trafodaeth gychwynnol trwy gyfrwng Zoom, efallai'n genedlaethol neu'n rhanbarthol.

Bydd yn fuddiol cael un neu ragor o arweinwyr gwirfoddol yn lleol, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol fyddai'n cydlynu'r ymgyrch adfer/cynnal tystiolaeth Gristnogol gydenwadol neu efallai'n anenwadol yn 2023.

Fy mhryder personol

Ar fore dydd olaf 2022 teimlais dan bwysau i rannu fy mhryder ac elfen o obaith y bydd eraill ohonoch yn ymdeimlo â'r gwir angen i gydweithio er mwyn plant Cymru a dyfodol y ffydd yn 'Y winllan wen a roed i'n gofal ni'.

Bydd o fantais i ni dderbyn eich awgrymiadau chi neu efallai ganllawiau llwyddiannus rydach chi wedi eu mabwysiadu eisoes yn eich cymdogaeth.

Mewn gobraith,

Gwilym Wyn Roberts

Ydych chi'n rhannu'r pryderon hyn am ddyfodol ein hysgolion Sul? Beth yw'r ffordd ymlaen? Anfonwch eich ymatebion at un o'r golygyddion – i'r cyfeiriadau ebost ar dud. 8

Cofio Rhoswen Llewellyn

Trist oedd clywed am farwolaeth Rhoswen Llewellyn, Cwmfelinmynach, ddechrau Rhagfyr. Bu'n ysgrifenyddes Capel y Bedyddwyr, Ramoth, Cwmfelin, am flynyddoedd, gan drefnu a chynnal pob math o oedfaon gyda phlant ac oedolion. Dyfarnwyd Medal Gee iddi rai blynyddoedd yn ôl am ei chyfraniad i'r ysgol Sul. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i theulu. Diolch i'r Prifardd Eirwyn George am y penillion hyn er coffa amdani.

Daeth fel chwa o awel iach
I barth Cwmfelin Mynach.

Fe'i ganed yn athrawes,
Llawn o fynd, a'i gwersi'n ffres,
(Onid yw'r cof am Rhoswen
Yn fyw o hyd yn Ffynnon-wen?)
Duwies y wlad ydoedd hi,
A'r plant yn ei addoli!

Ynglwm wrth bob cyfeillach
Roedd hi'n un â'r *Cardi Bach*.
Cywain i'w 'Golygyddol'
Glecs y wlad, heb ddim ar ôl.
A rhoi i ninnau flas y wledd
Yn gyfan — hyd y diwedd.

I Roy y bu'n gydymaith
Sicr ei cham ar lwybrau'r daith,
Dau gydnaws yn cydweithio
I fywchau diwylliant bro,
A rhoi mewn ffotograffiaeth
Stori hir nas edrydd iaith.

Bardd a llenor gafaelfgar:
Darn o bridd daer Shir Gâr.
Troi at rythmau'r delyneg
Oedd o hyd yn taro deg.
Gwau ysgrifau, a gamster
Ar roi ias mewn stori fer.

Â Merched y Wawr yn galw,
Rhaid oedd ymuno â nhw.
Llenwodd y gadair droeon
A rhyw wefr yn corddi'n ei bron.
O weld ein hiaith yn edwi,
Llusern y Gymraeg oedd hi.

Ar y Sul gwnaeth fwy na'i siâr
Yn Ramoth, roedd hi'n bilar.
Creu oedfaon o bob math,
Un o ruddin Goliath!
Ac weithiau, mewn dyddiau du,
Bu'n driw i ddilyn Iesu.

Y Fedal Gee oedd ran o'i stad,
Tystiolaeth o'i hymlyniad;
Ac o'i rhoi yn erw'r llan
Y mae Rhoswen ym mhobman!
Codaf fy nghap, i'w chofio hi,
A diolch i Dduw amdani.

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* Sul, 8 Ionawr, am 7.30yh

Bydd Ryland ar daith sy'n datgelu hanes cudd rhai o addoldai cyfareddol sir Faesyfed yng nghwmni Aled Morgan Hughes, a chawn fwynhau perfformiad hyfryd gan Siân James



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 8 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp

R. Alun Evans fydd yn cyflwyno'r drydedd raglen mewn cyfres sy'n trafod gwahanol themâu. Heddiw, y cof a chofio yw'r thema

Sul, 8 Ionawr, am 12:00yp

Oedfa ar weddi dan arweiniad Anna Huws, y Bala a Chanolfan Ffald-y-brenin

Mannau Cynnes

Yn anffodus, mae'r angen yn ein cymdeithas wedi cynyddu i'r fath raddau fel bod manau cynnes wedi dod yn anghenraid i lawer ledled y wlad, gyda manau cynnes yn ymddangos mewn llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a hyd yn oed mewn amgueddfeydd. Ond mae cyfran fawr o'r rhain yn cael eu rhedeg gan eglwysi, ac mae llawer o'n heglwysi wedi teimlo'r alwad i weld sut y gallant ddefnyddio'u cyfleusterau i gyfrannu at ddiwallu'r angen mawr yma – gan gyfuno'r angen am gynhesrwydd sylfaenol â bwyd a chwmniath.

'Fel llawer o eglwysi, rydym wedi ei chael yn her i weld sut allwn ni helpu pobl yn ein cymuned yn ystod y gaeaf hwn,' meddai Phil Hibbert, gweinidog Eglwys Bethel yn Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg. Ers mis Gorffennaf mae'r eglwys wedi bod yn siarad â sefydliadau ac eglwysi yn y dref ynghylch sut y gallent gydlyn eu darpariaeth mewn ffordd sy'n cynnig man cynnes drwy gydol yr wythnos ond sy'n caniatáu i bob un fod â'i flas unigryw ei hun. Y canlyniad yw ymgyrch ar y cyd â brandio cyson iddo. Fel hyn, mae Bethel yn gwybod bod o leiaf bum lle cynnes ar gael ar hyd yr wythnos y gallan nhw gyfeirio pobl atyn nhw.

Mae'r eglwys ei hun wedi sefydlu'r hyn y mae'n ei alw'n 'Warm Wednesdays', sy'n cael eu cynnal yn syth ar ôl ysgol a hefyd pan fydd y banc bwyd (sy'n cael ei gynnal ym Methel) yn gorffen. 'Mae man cynnes yn cynnig yn union hynny,' eglura Phil, 'sef amgylchedd hamddenol a chynnes.' Rhwng 3:15pm a 5pm mae yno ddiodydd poeth, byrbrydau, teganau ac ardal lle



gellir gwneud gwaith cartref. Dywed Phil eu bod wedi ceisio bod mor agored â phosib o ran yr hyn maent yn ei gynnig, 'oherwydd ein bod am i'r rhai sy'n mynychu ddweud wrthym beth sydd ei angen arnynt, yn hytrach nag i ni gymryd hynny'n ganiataol'.


Mae rhai eglwysi wedi penderfynu manteisio ar y cyfle i ganolbwyntio'u darpariaeth ar rannu pryddau bwyd, fel Capel Pentref, Bontnewydd-ar-Wy yng nghanolbarth Cymru. Maen nhw am gynnig 'lle croesawgar cynnes i unrhyw un fyddai'n mwynhau ychydig o gwmni dros bryd o fwyd bob mis – does dim angen cysylltiad â chapel. Mae rhai ohonom sy'n aml yn bwyta ar ein pennau ein hunain yn gwerthfawrogi sgwrs bob nawr ac yn y man!' Y tro diwethaf, fe

ddaeth tua 25 o bobl i neuadd y capel ac 'roedd y bwrlwm yn yr ystafell yn hyfryd wrth i'r *slow cookers* wagio'n raddol, a chafwyd hyd i ambell frathiad o bwddin hefyd'.

Yn yr un modd, yn Aberteifi, mae aelodau Eglwys Fedyddiedig Mount Zion wedi agor eu hadeilad bob dydd Mawrth o 3:30 tan 9pm, gyda phryd o fwyd dau gwrs yn ffurfio canolbwynt i'r cyfnod hwn – boed yn gawl a chrymbl neu daten bob â browni i bwddin.

Ac yng Nghaernarfon, mae Eglwys Caersalem bellach yn cynnal sesiwn 'Cawl a Chwmni' dros amser cinio estynedig bob dydd Iau. Fel mae Rhys Llwyd, bugail yr eglwys, yn esbonio: 'Os ydan ni fel cymuned eglwysig yn mynd i wario arian ar redeg adeilad, yna mae angen i ni ei ddefnyddio i wasanaethu pobl. Beth mae'n ei olygu i ddangos cariad Cristnogol yn y tymor hwn os nad drwy wneud rhywbeth fel hyn?'

Mewn sawl un o'r cyd-destunau hyn, un thema gyffredin sy'n dod i'r amlwg yw fod y cyfle i bobl gael cwmni eraill yr un mor bwysig â'r cynhesrwydd ei hun. Ym Mount Zion ar nos Fawrth oerllyd mae 'na fwrllwm wrth i fwyd gael ei baratoi a'i weini i grŵp o ryw ugain o bobl. Mae Eirian, un o nifer o wirfoddolwyr tu ôl i'r fenter, yn esbonio fod hon wedi bod yn ffordd mor dda iddynt ddod i adnabod pobl: 'Ry'n ni'n disgwyl cario hyn ymlaen yn dda i'r flwyddyn newydd. Mae'n fater o garu ein cymydog, on'd yw e – yn union fel fel mae Iesu'n ei orchymyn.'



The Shared Loaf



A warm welcome awaits everyone

Bless THE FOOD BEFORE US
the Family
RESIDE US
& the Love
BETWEEN US
AMEN

From 3.30pm-9.00pm every Tuesday starting 29th November at Mount Zion Church

We will be serving a FREE hot meal, drinks and a warm space.

If you would like to book please email office@cardigan.church or send a message via the Mount Zion FB page.

29th November Serving Cawl & Apple Crumble Please book by 20th November	6th December Jacket Potato & Chocolate Brownie Please book by 1st December	13th December Shepherd's Pie with Veg Please book by 8th December	20th December Christmas Buffet Please book by 13th December
-------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------

Children under 14 must be accompanied by an adult.
Any food allergens then please contact us.
A vegetarian option will be available on request.

Mount Zion Baptist Church, Priory Street, Cardigan SA43 1BU
e. office@cardigan.church www.cardigan.church

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Cyflwyno Iesu

Gwedd

Arglwydd Dduw, daeth pobl at dy ddisgyblion gan ddeisyf, 'Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu.' Arglwydd, tyrd atom heddiw drwy dy Ysbryd Glân am yr hoffem ninnau hefyd ei weld. Amen.

Emyn 184 'Dyros ni weld'

Darllen – Mathew 3:13-17

Paratoad

Roedd gweinidogaeth gyhoeddus Ioan Fedyddiwr wedi bod yn baratoad ar gyfer y foment fawr hon, yr awr y byddai teyrnas nefoedd yn dod at ei bobl a'r gwaredwr yn cael ei ddatguddio. Bu'n galw ar ei wrandawyr i'w paratoi eu hunain ar gyfer y foment fawr. Roedd bwyell barn Duw wrth wraidd y goeden, a'r coed diffrwyth, ar ei ddyfodiad, ar fin cael eu bwrw i'r tân. Bedyddio â dŵr a wnaeth Ioan; ond byddai'r hwn oedd ar fin ymddangos, meddai, un nad oedd yn deilwng i'w wasanaethu, yn bedyddio â'r Ysbryd Glân ac â than. Galwodd Ioan am edifeirwch ac am ffrwyth oedd yn deilwng o'u proffes newydd.

Cyfarfod

Adnabu Ioan Iesu ar un waith.

Roedd arwyddocâd mwy i'r cyfarfyddiad na bod dau gefnder, neu ddau arweinydd crefyddol, yn cwrdd â'i gilydd. Yma, ar ddechrau ei yrfa gyhoeddus cyflwynwyd Iesu i'r byd: 'Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd.' Dyma'r gwas hirddisgwyliedig, yr un yr oedd y Tad nefol yn 'ymhyfydu' ynddo. Daeth yr awr, gyda phob gwedduster, i 'gyflawni popeth y mae cyfiawnder yn ei ofyn'.

Ar ddechrau gweinidogaeth gyhoeddus Iesu datgelwyd hefyd baradocs gostyngeddwydd nerthol gras, a lleoliad annisgwyl gweithredoedd achubol y Duw tragwyddol anorchfygol.

Datgelwyd i ni hefyd natur drindodaidd y Duwodd. Clywn lais y Tad a anfonodd ei fab i'r byd; a dyma'r Mab yn ymgawdoli, a'r Ysbryd Glân yn tystio iddo. A thrwy rodd rasol ei Ysbryd down ninnau heddiw i adnabod y Mab fel Anwylyd y Tad, er gogoniant i Dduw.

Emyn 263 'O agor fy llygaid'

Darllen – Eiseia 42:1-9

Does dim dwywaith amdani: mae cyflwyno siaradwr neu siaradwraig wadd yn gamp! Sut mae dweud digon am y gwrthrych fel

body gynulleidfa'n cael digon o wybodaeth, heb eu syrffedu â bywgraffiad maith a diangen? Yn fynych, os yw'r cyflwynydd yn adnabod y darlithydd yn bersonol, fe gawn air o gyfarchiad personol i'r darlithydd gwadd ynghyd â gwerthfawrogiad o'i gyfraniad i faes ei arbenigedd. Ac yna, fel arfer, cawn gyflwyniad i destun y ddarlith ac awgrym pam mai'r darlithydd penodol yma yw'r person cymwys i drafod y pwnc.

Ar ryw olwg, dyna a gawn yn yr adnodau yma. Canfyddwn yn y lle cyntaf fod y Gwas yn cael ei gyflwyno i ni gan Dduw ei hun (adn. 1-5). Yna, caiff y Gwas ei gyfarch gan yr Arglwydd (adn. 6-9), ac yn gwau drwy'r cyfan cawn ein cyflwyno i arbenigedd unigryw'r Gwas.

Cyflwyno

Ar lwyfan hanes fe safodd Un cwbl unigryw. 'Dyma fy ngwas,' meddai'r Arglwydd. Dyma'r 'etholedig', eneinog dewisedig yr Arglwydd. Dyma'r un a gynhaliwyd gan y Tad a thestun ei 'falchder' tadol. Rhoddwyd Ysbryd Duw i orffwyso arno.

Yn ôl disgwyliad Ioan Fedyddiwr, byddai'r gwas etholedig, ar ei ddyfodiad, yn cyhoeddi 'barn'. Wedi'r cyfan, mae 'cyfiawnder' yn mynnu bod pob anghyfiawnder, annhegwch, popeth sy'n amharu ar harddwch amcanion cyfiawn yr Arglwydd yn cael eu condemnio a'u barnu. Roedd Ioan fel pe bai'n dweud, 'Byddai, fe fyddai Duw yn Emaniwel, yn Dduw gyda ni. Ond Duw gyda ni i'n barnu'n gyfiawn fyddai.'

Yn annisgwyl braidd, yn ôl Eiseia, byddai'r Gwas yn Dduw gyda ni, ond mewn gostyngeddwydd byddai'n ei uniaethu ei hun â ni ac yn cymryd ein rhan.

Am newyddion da! I'r rhai sydd dan orthrwm, mewn gwledydd lle mae trais, gormes, rhyfel, casineb a cham yn ymddangos fel pe baent yn ennill y dydd, byddai'r hwn a ddeuai mewn cyfiawnder yn cyhoeddi rhyddid a gobaith i'r byd.

Nid yn y tân ysgubol y canfyddir y gobaith hwn. Nid trwy leisau croch condemnïad y sefydlir ei deyrnas Ef. Byddai ei lais yn cynnig gobaith i'r rhai oedd wedi eu hysigo gan amgylchiadau bywyd, a medrai hefyd gynnig gobaith i'r rhai oedd â'u ffydd ar ddiffodd am ei fod ef ei hun yn gwbl anorchfygol.

Er y deuai mewn gostyngeddwydd, ni fyddai unrhyw fodd o'i ddryllio, na'i

ddiffodd ef. Byddai'r 'farn gywir' yr oedd yr 'ynyoedd' yn disgwyl amdani yn sicr o gael ei sefydlu ganddo.

Cyfarchiad

Yna, try'r Arglwydd a'n cyflwynodd i'w Fab i gyfarch y gwas. Ti yw'r un 'yr wyf yn ei gynnal' (adn. 1) a ti yw'r hwn a elwais mewn cyfiawnder. Ynot ti y 'rhoddais fy ysbryd' (adn. 1) a gafaelais yn dy law. Byddi'n ddiogel yn y berthynas dragwyddol sydd rhyngom.

Byddi di, fy ngwas etholedig, ynot dy hun, yn 'gyfamod pobl'.

Ni fydd yr Arglwydd yn gwneud cyfamod ag ef, na thrwyddo ef, fel y gwnaeth gyda Noa, neu Abraham neu Moses hyd yn oed. Cario'r cyfamod a wnaethant hwy. Ond y tro hwn Ti, y Gwas, yw'r addewid, y bwriad a'r sicrwydd o gyflawniad addewidion Duw.

Am hynny, byddi'n oleuni pobloedd, yn agorwr llygaid deillion, yn waredwr i'r caeth, yn ymgawdoliad o waredigaeth berffeithiach na dim a ddychmygydd.

Nid fydd cyflawniad y cyfamod hwn yn dibynnu ar allu unrhyw un dynol, ac ni rennir gogoniant y crewr a gweithredwr y cynllun gwaredigol hwn ag unrhyw fod arall. Eiddo'r Arglwydd yn unig yw'r gallu a'r gogoniant hwnnw.

Heddiw

Fe aeth y pethau cyntaf heibio. Daeth y Testament Newydd, y 'cyfamod newydd yn fy ngwaed' yn Iesu Grist. Ein braint yw cael adnabod a thystio i gyflawniad yr addewidion oll yn Iesu Grist gan ddisgwyl y daw cyflawniad y gobaith sydd eto i ddod drwy addewid y Tad, i'r Mab, drwy allu'r Ysbryd Glân.

Gwedd

Diolchwn i ti mai ti yw'r crewr sy'n parhau, yn ôl dy addewid, i ail-greu. Diolchwn i ti mai drwy dy Air y crewyd y bydysawd ac yn dy Air, dy was etholedig, y parhawn i ganfod bywyd a phosibiliadau newydd. Diolch mai Ef ei hun yw gobaith cenhedloedd y byd. Diolchwn i ti mai'r un Ysbryd ag a oedd yn ymsymud dros wyneb daear oedd yn afluniaiidd a gwag a symudodd yn Iesu Grist, drwy Iesu Grist, i'n bywhau ni er mwyn Iesu Grist. Diolch bod dy Ysbryd wedi cyflwyno Iesu i'r byd fel dy Fab, yr Anwylyd. Rho i ninnau'r ddawn raslon, fel Ioan gynt, i'th adnabod, i'th gydnabod fel yr Anwylyd, ac i dreulio ein hoes, drwy air a gweithred, yn ei gyflwyno i eraill. Amen.

Emyn 244 'O na foed ardal'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru

[f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru)

[t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)